



Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

Adroddiad ar

**Ysgol Maesteg
Ffordd Dysgu
Maesteg
CF34 OLQ**

Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2012

gan

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru**



Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

Barn	Yr hyn mae'r farn yn ei olygu
Rhagorol	Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector
Da	Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol
Digonol	Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella
Anfoddhaol	Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau

Estyn

Llys Angor, Heol Keen

Caerdydd

CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan:

www.estyn.gov.uk

Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg)

© Hawlfraint y Goron 2013: Gellir aildefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei aildefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 18/01/2013

Cyd-destun

Ysgol gyfun gymysg cyfrwng Saesneg 11 i 18 yw Ysgol Maesteg, i'r gogledd o Ben-y-bont ar Ogwr. Mae disgyblion yn mynd i'r ysgol o Gwm Llynfi. Mae poblogaeth y disgyblion wedi gostwng rhywfaint ers yr arolygiad diwethaf. Mae 1,094 o ddisgyblion ar y gofrestr ar hyn o bryd, gan gynnwys 179 yn y chweched dosbarth.

Ers yr arolygiad diwethaf, mae'r ysgol wedi symud o adeiladau blaenorol ar ddau safle i adeilad ysgol newydd ar un safle, a agorwyd yn 2008.

Mae gan gyfanswm o 26.35% o ddisgyblion hawl i gael prydau ysgol am ddim. Mae hyn ymhell uwchlaw'r cyfartaledd cenedlaethol, sef 17.4% ar gyfer ysgolion uwchradd yng Nghymru. Mae tua 55% o'r disgyblion yn byw yn yr 20% o ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru.

Mae disgyblion yn yr ysgol yn cynrychioli'r ystod gallu llawn. Yn unol â pholisi'r awdurdod lleol, nid oes gan unrhyw ddisgyblion ddatganiad o angen addysgol. Mae gan ddau ddeg wyth y cant o ddisgyblion angen addysgol arbennig. Mae Saesneg yn iaith ychwanegol i nifer fach iawn o ddisgyblion. Ychydig iawn o ddisgyblion sy'n siarad Cymraeg gartref. Mae naw deg naw y cant o ddisgyblion o gefndir ethnig Gwyn Prydeinig.

Ymunodd y pennaeth â'r ysgol ym Mai 2000. Mae'r dirprwy bennaeth wedi bod yn ei swydd er wyth mlynedd a'r tri phennaeth cynorthwyol am bum mlynedd.

Mae'r gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Maesteg yn 2011-2012 yn golygu mai'r gyllideb yw £4,166 fesul disgybl. Yr uchafswm fesul disgybl yn yr ysgolion uwchradd ym Mhen-y-bont ar Ogwr yw £4,709 a'r isafswm yw £3,785. Mae Ysgol Maesteg yn y chweched safle o'r 11 o ysgolion uwchradd ym Mhen-y-bont ar Ogwr o ran ei chyllideb ysgol fesul disgybl.

Crynodeb

Perfformiad presennol yr ysgol	Da
Rhagolygon gwella'r ysgol	Da

Perfformiad presennol

Bernir bod Ysgol Maesteg yn ysgol dda oherwydd:

- bod perfformiad yng nghyfnod allweddol 4 uwchlaw disgwyliadau ac yn cymharu'n ffafriol â pherfformiad ysgolion tebyg;
- bod disgyblion yn gwneud cynnydd gwell na'r disgwyl yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol;
- bod perthynas waith dda iawn rhwng disgyblion a staff;
- bod disgyblion yn ymddwyn yn dda iawn a bod ganddynt agweddau cadarnhaol iawn tuag at eu dysgu;
- bod y gofal a'r cymorth i ddisgyblion yn rhagorol; a
- bod yr ysgol yn llwyddiannus iawn wrth wneud yn siŵr bod disgyblion yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt i wneud cynnydd.

Rhagolygon gwella

Mae'r rhagolygon gwella yn dda oherwydd:

- bod gan y pennaeth a'r uwch arweinwyr weledigaeth glir ar gyfer gwella safonau, sydd wedi cael ei chyfleu yn llwyddiannus i staff, disgyblion, rhieni a'r gymuned ysgol ehangach;
- bod y llywodraethwyr yn darparu synnwyr clir o gyfeiriad ar gyfer gwaith yr ysgol a'u bod yn ffrindiau beirniadol effeithiol;
- bod uwch arweinwyr ac arweinwyr canol yn cydweithio'n agos i fonitro ac arfarnu'r gwaith ar bob agwedd ar fywyd yr ysgol;
- bod disgyblion yn cael dylanwad cadarnhaol a sylweddol ar bob agwedd ar fywyd yn yr ysgol; a
- bod ffocws cyson ar ddatblygu lles disgyblion wedi arwain at welliannau mewn llawer o agweddau ar waith yr ysgol ers yr arolygiad diwethaf, gan gynnwys deilliannau gwell ar gyfer dysgwyr.

Argymhellion

- A1 gwella safonau mewn Saesneg, yn enwedig yng nghyfnod allweddol 3;
- A2 gwella cysondeb mewn addysgu, marcio ac asesu;
- A3 gwella adroddiadau i rieni; a
- A4 gwella cysondeb adroddiadau hunanarfarnu a chynlluniau gwella adrannol.

Beth sy'n digwydd nesaf?

Arfer ragorol

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaeth achos ysgrifenedig, yn disgrifio'r arfer ragorol a nodwyd yn ystod yr arolygiad.

Prif ganfyddiadau

Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?

Da

Safonau: Da

Mae perfformiad yr ysgol yn gwella'n gyson bron ym mhob dangosydd yng nghyfnod allweddol 3 a chyfnod allweddol 4. Mae perfformiad yn ddigonol yng nghyfnod allweddol 3 ar hyn o bryd, ond yn dda yng nghyfnod allweddol 4.

Yng nghyfnod allweddol 3, mae perfformiad mewn Saesneg wedi golygu bod yr ysgol yn yr hanner isaf o ysgolion tebyg am y tair blynedd diwethaf. Hefyd, yn 2012, roedd perfformiad yn y dangosydd pwnc craidd ac mewn Saesneg ychydig islaw perfformiad cyfartalog ysgolion tebyg. Fodd bynnag, roedd perfformiad yn y ddau ddangosydd hyn ychydig uwchlaw'r lefelau disgwylidig.

Yn 2012, roedd gwyddoniaeth a mathemateg yng nghyfnod allweddol 3 uwchlaw perfformiad cyfartalog ysgolion tebyg ac yn golygu bod yr ysgol yn y chwarter uchaf o ysgolion tebyg ar sail cyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim. Mae perfformiad ar lefel 6 ac yn uwch yn dda o gymharu â pherfformiad ysgolion tebyg mewn mathemateg. Mae cynnydd gan ddisgyblion o'r cyfnod allweddol blaenorol yn ddigonol bron ym mhob dangosydd. Mae'n dda mewn mathemateg.

Yng nghyfnod allweddol 4, bu tuedd gynaliadwy a chyson o welliant yn y rhan fwyaf o ddangosyddion. Dros y tair blynedd diwethaf, mae perfformiad yn y dangosyddion hynny sy'n cynnwys Saesneg a mathemateg wedi bod uwchlaw'r cyfartaledd bron bob tro o gymharu â pherfformiad ysgolion tebyg. Mae perfformiad yn y dangosyddion sy'n cynnwys ystod eang o gymwysterau wedi bod yn gyson uwchlaw cyfartaledd ysgolion tebyg. Mae disgyblion yn gwneud cynnydd da o'r cyfnodau allweddol blaenorol.

Yn y pynciau craidd ar wahân yng nghyfnod allweddol 4, mae mathemateg a gwyddoniaeth yn dangos tuedd ar i fyny. Fodd bynnag, er bod perfformiad mewn Saesneg wedi bod uwchlaw cyfartaledd y teulu am y ddwy flynedd ddiwethaf, bu tuedd ar i lawr dros dair blynedd.

Dros y ddwy flynedd ddiwethaf, gadawodd pob disgybl yr ysgol gyda chymhwyster, a pharhaodd cyfran uchel ohonynt i addysg amser llawn ar ôl 16. Mae bron pob disgybl dros y tair blynedd diwethaf wedi cyflawni'r trothwy lefel 1 erbyn diwedd addysg amser llawn yn 16 oed. Ni adroddwyd bod yr un o'r disgyblion a adawodd yr ysgol yn 16 oed ddim mewn addysg, cyflogaeth a hyfforddiant.

Yn y chweched dosbarth, mae perfformiad myfyrwyr dros dair blynedd yn cymharu'n dda gydag ysgolion tebyg a chyfartaleddau cenedlaethol. Mae disgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu hastudiaethau.

Yng nghyfnod allweddol 3, nid yw bechgyn yn perfformio cystal â merched mewn Saesneg ac yn y dangosydd pwnc craidd. Mae'r gwahaniaeth mewn perfformiad rhwng bechgyn a merched yn fwy nag ydyw mewn ysgolion tebyg ac yn

genedlaethol. Yng nghyfnod allweddol 4, mae perfformiad bechgyn yn gyson is mewn llawer o ddangosyddion, er eu bod yn gwneud y cynnydd disgwylidig o'r cyfnodau allweddol blaenorol. Mae bechgyn llai abl yn gwneud cynnydd gwell na'r disgwyl.

Mae'r bwlch ym mherfformiad disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim a'r rhai nad oes ganddynt hawl i'w cael wedi lleihau dros y tair blynedd diwethaf. Mae perfformiad disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim wedi amrywio ym mhob dangosydd yng nghyfnod allweddol 3 a chyfnod allweddol 4, ond mae tuedd gyffredinol o wella.

Mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn cyflawni'n dda, yn aml uwchlaw'r disgwyliadau.

Mewn gwersi a thros gyfnod, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da neu well yn eu dysgu. Maent yn adalw gwybodaeth yn dda ac yn cymhwys hyn yn dda i ddysgu newydd. Mae ganddynt fedrau meddwl a rhesymu da iawn.

Mae'r ysgol wedi blaenoriaethu datblygu siarad ac fe gaiff hyn effaith fuddiol. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn siaradwyr hyderus ac yn ateb cwestiynau yn fanwl, gan ddefnyddio geirfa briodol, sy'n benodol i bwnc. Mae ansawdd y gwaith darllen ac ysgrifenedig yn briodol i oedrannau a galluoedd disgyblion. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn darllen yn hyderus ac mae ganddynt strategaethau effeithiol ar gyfer mynd i'r afael â geiriau anghyfarwydd. Mae'r rhan fwyaf o'r gwaith ysgrifenedig wedi'i gyflwyno'n dda ac mae disgyblion yn cymryd gofal â'u sillafu, eu hatalnodi a'u gramadeg. Mae'r disgyblion mwyaf abl yn cynhyrchu gwaith ysgrifenedig estynedig da iawn. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn effeithiol wrth wella eu dysgu eu hunain ac maent yn gweithio'n dda ar eu pen eu hunain, mewn parau ac mewn grwpiau.

Mae safonau mewn Cymraeg ail iaith yn dda. Yng nghyfnod allweddol 3, mae perfformiad wedi gwella a bu yn yr hanner uchaf o ysgolion tebyg am y ddwy flynedd ddiwethaf. Yng nghyfnod allweddol 4, mae nifer fawr o ddisgyblion yn cyflawni lefel 2. Yn 2012, cofrestrwyd bron i un o bob pump o'r garfan ar gyfer y cwrs llawn ac enillodd bob un ohonynt y cymhwyster. Cofrestrwyd tua hanner o'r garfan ar gyfer y cwrs byr ac enillodd bob un ohonynt y cymhwyster.

Lles: Rhagorol

Mae disgyblion yn teimlo'n ddiogel a'u bod yn cael gofal da yn yr ysgol. Maent yn ymateb yn dda i lefel ragorol o gymorth personol. Mae bron pob un ohonynt yn teimlo bod rhywun ar gael i siarad â nhw os bydd angen cymorth arnynt. Mae gan bron bob disgybl agweddau cadarnhaol at ddysgu ac maent yn awyddus i wneud cynnydd. Caiff hyn effaith eithriadol o dda ar les a safonau.

Mae gan lawer o ddisgyblion ddealltwriaeth dda o sut y gallant fyw yn iach ac maent yn cymryd rhan mewn ystod eang iawn o chwaraeon a gweithgareddau corfforol eraill. Mae bron pob un ohonynt yn cyrraedd yn brydlon ar gyfer gwersi ac yn ymddwyn yn dda iawn yn y dosbarth ac o amgylch yr ysgol. Mae bron pob disgybl yn gwrtais a chymwynasgar, ac yn gweithio'n dda gyda disgyblion eraill. Gwelwyd gwelliant mewn presenoldeb ac mae'r un fath ag ydyw mewn ysgolion tebyg erbyn hyn. Mae hyn yn parhau i fod yn flaenoriaeth ysgol gyfan ac mae targedau heriol ynghlwm wrthi.

Mae disgyblion yn gwneud cyfraniad cadarnhaol a sylweddol, sy'n dylanwadu ar bob agwedd ar fywyd yn yr ysgol. Mae hon yn nodwedd gref iawn. Mae'r cyngor ysgol yn cymryd rhan mewn ystod eang o faterion ac yn dylanwadu ar benderfyniadau am agweddau ar fywyd yr ysgol. Er enghraifft, mae aelodau'r cyngor wedi codi ymwybyddiaeth yn llwyddiannus am faterion cynaliadwyedd ac yn cyfrannu at arfarnu addysgu a dysgu.

Mae llawer o ddisgyblion yn cymryd rhan mewn ystod eang o weithgareddau cymunedol, gan gynnwys codi arian, tasgau menter a llawer o weithgareddau diwylliannol. Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu medrau cymdeithasol a bywyd priodol trwy'r cwricwlwm a thrwy gymryd rhan mewn ystod helaeth o weithgareddau allgyrsiol. Mae disgyblion yn cynorthwyo ei gilydd yn arbennig o dda trwy ystod o fentrau, gan gynnwys cyfryngu cyfoedion a llysgenhadon chwaraeon.

Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?
--

Da

Profiadau dysgu: Da

Mae'r ysgol yn darparu cwricwlwm eang a chytbwys sy'n ennyn diddordeb pob disgybl ac yn bodloni eu hanghenion a'u dyheadau. Mae cwricwlwm cyfnod allweddol 3 yn adeiladu'n dda ar brofiadau disgyblion yng nghyfnod allweddol 2. Yng nghyfnod allweddol 4, mae'r ysgol yn cynnig ystod dda o gyrsiau cyffredinol a galwedigaethol, gan gynnwys darpariaeth lwyddiannus ar gyfer lleihau nifer y disgyblion sy'n gadael heb unrhyw gymwysterau. Yn y chweched dosbarth, mae dysgwyr yn dilyn amrywiaeth eang o gyrsiau, naill ai yn yr ysgol ei hun neu mewn ysgolion partner ac yn y coleg addysg bellach lleol.

Mae trefniadau effeithiol i ddysgwyr ddatblygu medrau llythrennedd, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu ar draws eu holl bynciau. Mae llawer ohonynt yn ennill cymwysterau priodol yn y meysydd hyn. Yn ogystal â datblygu llythrennedd yn y cwricwlwm, mae ystod o ymyriadau gwerth chweil i helpu disgyblion i wella eu siarad, eu darllen a'u hysgrifennu.

Mae amrywiaeth dda o weithgareddau allgyrsiol. Maent yn darparu ystod o brofiadau estynedig, gan gynnwys drama, chwaraeon a gweithgareddau cerddorol.

Mae trefniadau priodol ar gyfer datblygu addysg am ddatblygiad cynaliadwy a datblygu dealltwriaeth o faterion byd-eang. Mae datblygiad cynaliadwy yn ffocws allweddol i'r cyngor ysgol. Mae wedi codi ymwybyddiaeth am yr angen i ailgylchu ac mae wedi gwneud trefniadau defnyddiol gyda chwmni lleol, y mae'r ysgol yn gwerthu ei phapur gwastraff a phlastig iddo.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer y Gymraeg yn galluogi disgyblion i wneud cynnydd priodol wrth ddatblygu eu medrau Cymraeg. Caiff dealltwriaeth disgyblion o ddiwylliant a thraddodiadau Cymru ei datblygu'n effeithiol trwy ystod o bynciau a gweithgareddau allgyrsiol, gan gynnwys Clwb Cymraeg ac ymweliadau sydd â ffocws ar yr iaith Gymraeg a'i diwylliant.

Addysgu: Da

Bron ym mhob gwers, mae perthynas dda iawn rhwng yr athro a'r disgyblion, ac mae hyn yn arwain at awyrgylch gweithio tawel a phwrpasol mewn gwersi.

Mewn llawer o wersi, mae gan athrawon ddisgwyliadau uchel o ddisgyblion. Yn y gwersi hyn, mae cynllunio effeithiol yn golygu y gall pob disgybl wella ei ddysgu ei hun a gwneud cynnydd da. Mae gweithgareddau dysgu sy'n cael eu cynllunio a'u cyflawni'n dda yn cynnal diddordeb y disgyblion trwy gydol y wers. Caiff disgyblion eu herio i feddwl drostynt eu hunain a chydweithio â disgyblion eraill.

Yn y gwersi effeithiol hyn, gwneir trefniadau da iawn i ddatblygu medrau iaith a phwnc disgyblion. Mae ffocws clir ar wella llythrennedd, ac yn arbennig ar flaenoriaeth yr ysgol, sef siarad. Defnyddir cwestiynau medrus sy'n procio ac yn ymestyn gwybodaeth a dealltwriaeth. Mewn rhai o'r gwersi mwyaf llwyddiannus, gwneir defnydd rhagorol o dechnoleg newydd i gefnogi dysgu. Er enghraifft, tynnir ffotograffau o waith, ac fe'i rhennir gan ddefnyddio'r e-bost.

Mae'r addysgu yn llai effeithiol mewn rhai gwersi. Mae'r gwersi hyn yn symud yn araf ac mae diffyg her ynddynt. Nid yw'r addysgu yn bodloni anghenion yr holl ddysgwyr gan nad yw'r tasgau a roddir na lefel y cymorth gan yr athro yn cael eu haddasu ar gyfer gwahanol alluoedd. Mae gormod o gyfarwyddyd gan yr athro hefyd a dim digon o amrywiaeth o weithgareddau dysgu. Mewn ychydig iawn o achosion, rhoddir tasgau nad ydynt yn ddigon heriol i ddisgyblion, fel copio.

Mae bron pob athro yn marcio gwaith yn rheolaidd. Yn y mwyafrif o achosion, mae sylwadau yn llawn gwybodaeth ac yn cynnig awgrymiadau defnyddiol ynghylch sut i wella. Fodd bynnag, mae anghysondeb ar draws meysydd pwnc, ac nid yw lleiafrif o sylwadau yn rhoi digon o arweiniad i ddisgyblion ar y camau nesaf mewn dysgu. Yn y mwyafrif o wersi, rhoddir cyfleoedd da i ddisgyblion asesu cynnydd yn erbyn meini prawf llwyddo.

Mae'r ysgol wedi mireinio ei system ar gyfer olrhain cynnydd disgyblion yn ddiweddar, ac mae athrawon yn defnyddio'r system yn effeithiol i nodi tangyflawni. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwybod eu lefelau a'u graddau disgwylidig a phresennol. Mae adroddiadau i rieni yn cynnwys gwybodaeth ddefnyddiol am bresenoldeb, ymddygiad ac ymdrech. Fodd bynnag, mae adroddiadau yn amrywio gormod mewn ansawdd ac nid yw'r rhai a ddarperir yng nghyfnod allweddol 3 yn cynnwys gwybodaeth am ddeilliannau disgyblion.

Gofal, cymorth ac arweiniad: Rhagorol

Mae'r ffyrdd y caiff yr ysgol wared ar rwystrau rhag dysgu yn rhagorol. Caiff y system fugeiliol eang effaith helaeth ar bresenoldeb, ymddygiad a pherfformiad. Bu'r ysgol yn llwyddiannus iawn o ran lleihau'r nifer sy'n gadael heb gymwysterau ac o ran cynyddu'r niferoedd sy'n aros mewn addysg neu hyfforddiant.

Mae'r ysgol yn trefnu darpariaeth dda iawn ar gyfer hyrwyddo iechyd a lles disgyblion mewn amgylchedd gofalgar a chefnogol iawn sy'n annog agwedd gadarnhaol at yr ysgol. Defnyddia ystod eang o strategaethau ymyrryd arloesol, sy'n ymatebol i ystod eang o anghenion disgyblion. Mae'r ystod o strategaethau ar gyfer disgyblion ag anghenion personol ac emosiynol yn gryfder arbennig. Mae'r ysgol wedi gwneud defnydd da o arolygon gyda disgyblion a mentrau fel 'Helping Hands' i nodi anghenion penodol. Mae'r ysgol yn sicrhau bod darpariaeth ragorol yn bodloni'r anghenion hyn.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion yn effeithiol.

Mae athrawon a hyfforddwyr dysgu yn rhoi cyngor gwerthfawr i ddisgyblion wrth iddynt ddewis opsiynau yng nghyfnod allweddol 4 ac yn y sector ôl-16. Mae'r ysgol wedi sefydlu trefniadau pontio effeithiol i gefnogi disgyblion ym mhob cyfnod allweddol.

Mae'r ysgol yn rhoi arweiniad da iawn i ddisgyblion ac yn gweithio'n dda iawn mewn partneriaeth ag ystod o asiantaethau cymorth a gwasanaethau arbenigol. Mae'r partneriaethau hyn yn helpu i wneud yn siŵr bod disgyblion yn cael cymorth sy'n briodol i'w hanghenion. Mewn llawer o achosion, mae'n helpu disgyblion i wneud cynnydd a gwella eu hagweddau at ddysgu.

Rhoddir cymorth helaeth i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol, ac mae'n sicrhau bod disgyblion yn gallu llwyddo a symud ymlaen i'r cam nesaf mewn dysgu. Mae cynlluniau addysgol unigol disgyblion yn nodi targedau priodol, gan arwain at welliant a chynnydd.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn rhoi unrhyw achos i bryderu.

Yr amgylchedd dysgu: Rhagorol

Mae'r ysgol yn gydlynol, yn ddiogel ac yn hynod gynhwysol. Caiff arwyddair yr ysgol, sef 'Yr Addysg Orau yw Dysgu Byw' ('The Best Education is Learning to Live'), ei hyrwyddo'n llwyddiannus ac mae'n amlwg yn holl ddiwylliant yr ysgol. Mae'r ysgol yn llwyddiannus iawn o ran cynnwys y gymuned leol yn ei bywyd a'i gwaith.

Mae'r tu mewn i'r adeilad yn olau ac eang, ac fe geir arddangosiadau o ansawdd da iawn. Caiff adeiladau a thir yr ysgol eu cynnal yn dda, ac maent yn ddiogel. Mae safon y ddarpariaeth o ran adnoddau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu yn uchel iawn. Mae cyfleusterau chwaraeon yn rhagorol. Caiff adnoddau eu gweddu'n dda i anghenion dysgu. Mae amgylchedd yr ysgol yn cyfrannu at awyrgylch dysgu cadarnhaol iawn.

Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?	Da
--	-----------

Arweinyddiaeth: Da

Mae gan y pennaeth a'r uwch arweinwyr weledigaeth glir ar gyfer gwella safonau, sydd wedi cael ei chyfleu yn llwyddiannus i staff a disgyblion. Mae hyn wedi cael effaith gadarnhaol sylweddol ar hyrwyddo gwerthoedd ar y cyd a disgwyliadau uchel, sydd wedi annog disgyblion i wneud eu gorau. Caiff y weledigaeth ei chyfleu yn dda iawn ymhlith rhieni a chymuned ehangach yr ysgol.

Mae strwythur cydlynus ar gyfer cyfarfodydd, sy'n cynnwys ffocws gwerthfawr ar berfformiad yr ysgol ac yn arwain at bwyntiau gweithredu perthnasol. Mae rolau a chyfrifoldebau uwch staff wedi'u diffinio'n addas ac fe geir cydbwysedd eang priodol rhyngddynt. Cânt eu cefnogi'n addas gan dîm arweinyddiaeth estynedig.

Mae uwch arweinwyr ac arweinwyr canol wedi rhoi strwythurau ar waith, sydd wedi arwain at welliant yn yr ysgol. Mae hyn wedi arwain at fwy o atebolrwydd am gyfrifoldebau rheolaethol a thuedd gynyddol mewn perfformiad.

Caiff perfformiad y staff ei reoli'n dda, ac fe gaiff tanberfformio ei herio yn llwyddiannus. Mae'r gweithdrefnau hyn wedi bod yn ffactorau cyfrannol arwyddocaol mewn gwelliannau diweddar, er enghraifft mewn mathemateg.

Mae arweinwyr a rheolwyr yn gwneud defnydd da o ddata i osod targedau realistig a heriol a monitro cynnydd yn eu herbyn.

Mae'r ysgol yn rhoi ystyriaeth briodol i flaenoriaethau cenedlaethol, yn arbennig mewn perthynas â lleihau eithrio cymdeithasol ac ymestyn y cwricwlwm i ddysgwyr rhwng 14 ac 19 ar y cyd â darparwyr lleol eraill. Mae arweinwyr a rheolwyr yn cynllunio'n gynhwysfawr i godi lefelau medrau llythrennedd disgyblion.

Mae gan lywodraethwyr ddealltwriaeth dda o'u rolau ac fe gânt wybodaeth addas am berfformiad yr ysgol. Maent yn defnyddio'r wybodaeth hon yn dda ac yn dwyn yr ysgol i gyfrif yn briodol. Mae llywodraethwyr yn ymgymryd â'u gwaith trwy ystod gynhwysfawr o bwyllgorau, ac maent wedi sefydlu cysylltiadau buddiol gyda meysydd pwnc yn yr ysgol. Gyda'i gilydd, maent yn darparu synnwyr da o gyfeiriad ar gyfer gwaith yr ysgol, ac maent yn ffrindiau beirniadol effeithiol.

Gwella ansawdd: Da

Mae prosesau hunanarfarnu'r ysgol yn eang. Mae uwch arweinwyr ac arweinwyr canol yn cydweithio'n agos i fonitro ac arfarnu gwaith pob agwedd ar fywyd yr ysgol. Mae ffocws cyson ar ddatblygu lles disgyblion wedi arwain at welliannau mewn llawer o agweddau ar waith yr ysgol ers yr arolygiad diwethaf, gan gynnwys deilliannau gwell i ddysgwyr.

Mae'r adroddiad hunanarfarnu ysgol gyfan yn arfarnol ac yn defnyddio tystiolaeth uniongyrchol o arsylwadau gwersi, arolygon i ddisgyblion a rhieni a thrwy graffu ar waith disgyblion. Mae ansawdd adroddiadau hunanarfarnu cyfadrannau yn dda ar y cyfan, ac yn cysylltu'n dda â hunanarfarnu ysgol gyfan. Defnyddir ymgynghorwyr allanol yn dda i ddarparu arfarniad defnyddiol pellach o waith yr ysgol.

Caiff blaenoriaethau addas ysgol gyfan eu nodi o'r prosesau hunanarfarnu. Mae cynlluniau gwella cyfadrannau wedi'u seilio ar ddeilliannau hunanarfarnu ac maent yn cysylltu'n dda â'r cynllun datblygu ysgol gyfan. Fodd bynnag, nid ydynt bob amser yn amlinellu amserlenni clir ar gyfer pwyntiau gweithredu nac yn cynnwys targedau mesuradwy.

Mae gweithgareddau datblygiad proffesiynol parhaus yn cefnogi staff yn dda. Maent wedi'u cysylltu'n briodol â thargedau rheoli perfformiad yn ogystal â chynlluniau gwella cyfadrannau. Defnyddir arsylwadau cymheiriaid yn briodol i ddarparu datblygiad proffesiynol ychwanegol, ac mae'n galluogi athrawon a staff cymorth dysgu i rannu arfer dda. Yn ychwanegol, mae sawl arweinydd canol wedi cael profiad addas yn ddiweddar trwy weithio fel rhan o dîm uwch arweinyddiaeth estynedig.

Mae gan yr ysgol nifer o weithgorau mewnol ac allanol sy'n canolbwyntio ar feysydd addas fel datblygiad medrau llythrennedd ac asesu ar gyfer dysgu mewn addysg gorfforol a chwaraeon ysgol.

Gweithio mewn partneriaeth: Da

Mae'r ysgol yn cynnwys rhieni yn llwyddiannus o ran cefnogi lles a chynnydd eu plant. Mae'r ysgol yn cynnal ystod fuddiol o ddsbarthiadau i rieni, fel 'TG Sylfaenol', Cymraeg a 'Cadw i fyny gyda'm Plentyn mewn Mathemateg'. Mae nifer dda o rieni yn mynychu'r rhain, ac maent yn boblogaidd.

Mae partneriaeth yr ysgol gydag ystod eang o asiantaethau, gan gynnwys yr awdurdod lleol a gwasanaethau cymdeithasol, yn nodwedd effeithiol sy'n helpu i gefnogi dysgwyr sy'n fwy agored i niwed. Mae'r cysylltiadau hyn yn helpu i hyrwyddo cynhwysiant ac ymgysylltiad mewn dysgu.

Mae partneriaeth effeithiol gydag ysgolion uwchradd eraill, y coleg addysg bellach lleol a busnesau yn helpu i gyflawni gofynion Llwybrau Dysgu 14-19.

Mae'r perthnasoedd gydag ysgolion cynradd y clwstwr wedi'u datblygu'n dda ac yn cyfrannu at bontio effeithiol i ddisgyblion o Flwyddyn 6 i Flwyddyn 7. Mae'r rhain yn helpu disgyblion i ymgynefino'n gyflym ym Mlwyddyn 7. Mae athrawon yn cyfarfod â chydweithwyr cynradd yn rheolaidd i gytuno ar safonau a helpu i sicrhau bod eu gwaith yn adeiladu ar y testunau yr ymdriniwyd â nhw yn yr ysgol gynradd.

Mewn partneriaeth â sefydliadau addysg uwch, mae'r ysgol yn cymryd rhan lawn mewn hyfforddi darpar athrawon.

Rheoli adnoddau: Da

Mae'r ysgol wedi'i staffio'n briodol i addysgu'r cwricwlwm, a defnyddir athrawon yn effeithiol i wneud y defnydd gorau o'u hamser, eu harbenigedd a'u profiad. Mae athrawon yn gwneud defnydd gwerth chweil o amser cynllunio, paratoi ac asesu.

Mae gan arweinwyr a rheolwyr ddealltwriaeth gyson dda o gostau prosiectau a gweithgareddau. Mae'r pennaeth a'r corff llywodraethol yn nodi'r blaenoriaethau ar gyfer datblygu yn glir ac maent yn cydweithio'n dda i ddyrannu cyllid. Maent yn monitro gwariant yn agos ac yn eu hadolygu'n gyson.

Mae trefniadau systematig ar waith i fonitro'r gyllideb. Mae'r ysgol yn cynllunio'n llwyddiannus ar gyfer cronfeydd darbodus wrth gefn.

Yng ngoleuni'r farn gyffredinol am safonau, mae'r ysgol yn darparu gwerth da am arian.

Atodiad 1

Sylwadau ar ddata perfformiad

Mae perfformiad yng nghyfnod allweddol 3 wedi amrywio dros y tair blynedd diwethaf, ond tuedd o welliant a welwyd yn gyffredinol. Yn 2012, roedd perfformiad yn y dangosydd pwnc craidd uwchlaw'r disgwyliadau, ond roedd ychydig islaw cyfartaleddau'r teulu a Chymru ac yn golygu bod yr ysgol wedi symud o'r ail chwarter i'r trydydd chwarter o ysgolion ar sail cyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim. Yn 2012, roedd perfformiad ar lefel 5 ac yn uwch mewn Saesneg ychydig islaw cyfartaledd y teulu ac islaw cyfartaledd Cymru. Mae perfformiad mewn Saesneg wedi golygu bod yr ysgol yn y trydydd chwarter o ysgolion tebyg am y tair blynedd diwethaf. Cafwyd perfformiad da mewn mathemateg am y ddwy flynedd ddiwethaf, a oedd ymhell uwchlaw cyfartaleddau'r teulu a Chymru, gan olygu bod yr ysgol yn y chwarter uchaf o ysgolion tebyg. Roedd perfformiad mewn gwyddoniaeth yn 2012 ymhell uwchlaw cyfartaleddau'r teulu a Chymru. Roedd perfformiad ar lefel 6 ac yn uwch ym mhob un o'r tri phwnc craidd yn debyg i'r cyfartaledd ar gyfer y teulu o ysgolion.

At ei gilydd, erbyn diwedd cyfnod allweddol 3, mae disgyblion yn gwneud cynnydd digonol o'r cyfnod allweddol blaenorol yn y dangosydd pwnc craidd, Saesneg a gwyddoniaeth. Bu cynnydd mewn mathemateg yn well na'r cyfartaledd ar gyfer ysgolion tebyg.

Mae perfformiad yng nghyfnod allweddol 4 yn y prif ddangosyddion wedi gwella dros y tair blynedd diwethaf. Roedd perfformiad yn nhrothwy lefel 2, gan gynnwys Saesneg a mathemateg, yn golygu bod yr ysgol yn yr hanner uchaf o ysgolion tebyg mewn dwy o'r ddwy flynedd ddiwethaf. Mae perfformiad yn nhrothwy lefel 2 wedi golygu bod yr ysgol yn yr hanner uchaf ar gyfer pob un o'r tair blynedd diwethaf. Mae perfformiad yn nhrothwy lefel 1 wedi golygu bod yr ysgol yn y chwarter uchaf ar gyfer pob un o'r tair blynedd diwethaf. Mae perfformiad yn y dangosydd pwnc craidd wedi golygu bod yr ysgol yn y chwarter uchaf ar gyfer dwy o'r tair blynedd diwethaf. Roedd cyrhaeddiad ym mhob un o'r dangosyddion hyn yn 2012 yn golygu bod yr ysgol yn yr hanner uchaf o ysgolion tebyg ar sail cyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim. Mae perfformiad yn nhrothwy lefel 2, gan gynnwys Saesneg a mathemateg, wedi amrywio, ond mae'r duedd gyffredinol yn un o welliant. Yn 2009, roedd yn golygu bod yr ysgol yn y trydydd chwarter o ysgolion tebyg ar sail cyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a symudodd yr ysgol i'r ail chwarter yn 2012. Roedd perfformiad yn 2012 ymhell uwchlaw'r disgwyliadau. Roedd perfformiad yn nhrothwy lefel 2, y dangosydd pwnc craidd a'r sgôr pwyntiau wedi'i chapio i gyd uwchlaw cyfartaleddau'r teulu ac yn agos at gyfartaleddau Cymru, neu'n uwch na nhw.

Mae perfformiad yn y pynciau craidd ar wahân yng nghyfnod allweddol 4 wedi amrywio, ond yn dangos tuedd o welliant heblaw mewn Saesneg. Disgynnodd perfformiad mewn Saesneg ychydig yn 2012 ac, er iddo aros uwchlaw cyfartaledd y teulu, mae perfformiad wedi golygu bod yr ysgol yn y trydydd chwarter o ysgolion tebyg am y tair blynedd diwethaf. Mathemateg sydd wedi dangos y gwelliant mwyaf. Yn 2011, roedd perfformiad islaw cyfartaledd y teulu ac yn golygu bod yr ysgol yn y

chwarter isaf o ysgolion tebyg. Cafwyd gwelliant yn 2012, a chododd uwchlaw cyfartaledd y teulu, gan fynd â'r ysgol i'r ail chwarter o ysgolion tebyg. Mae perfformiad mewn gwyddoniaeth wedi bod ymhell uwchlaw cyfartaleddau'r teulu a Chymru yn gyson, ac wedi golygu bod yr ysgol yn y chwarter uchaf o ysgolion tebyg am y ddwy flynedd ddiwethaf.

Dros y tair blynedd diwethaf, mae disgyblion yng nghyfnod allweddol 4 wedi gwneud cynnydd da ar y cyfan o gyfnod allweddol 2 a chyfnod allweddol 3 ym mhob un o'r prif ddangosyddion. Mae'r ysgol yn yr hanner uchaf o ysgolion tebyg o ran y cynnydd a wna'r disgyblion.

Atodiad 2

Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

Holiaduron i ddysgwyr

Cafodd Estyn ymatebion gan 265 o ddisgyblion, a ddewiswyd ar hap ar draws yr ystod oedran. Roedd ymatebion disgyblion Ysgol Maesteg yn fwy cadarnhaol nag ymatebion disgyblion o ysgolion uwchradd eraill ar y cyfan.

Mae bron pob un o'r disgyblion yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol.

Dywed y rhan fwyaf ohonynt:

- fod ganddynt ddigon o lyfrau ac offer;
- bod digonedd o gyfleoedd iddynt wneud ymarfer corff yn rheolaidd;
- eu bod yn gwneud yn dda;
- bod staff yn eu helpu i ddysgu a gwneud cynnydd;
- bod yr ysgol yn eu hannog i gymryd cyfrifoldeb;
- bod rhywun y gallant droi ato os bydd ganddynt unrhyw bryderon;
- bod staff yn dangos parch atynt; a
- bod yr ysgol yn eu helpu i ddeall a pharchu pobl o gefndiroedd eraill.

Mae llawer o ddisgyblion:

- yn credu bod yr ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio;
- yn dweud bod yr ysgol yn eu haddysgu ynghylch sut i fod yn iach;
- yn credu bod gwaith cartref yn eu helpu i ddeall a gwella eu gwaith; ac
- yn dweud bod staff yn trin pob disgybl yn deg a gyda pharch.

Mae mwyafrif o ddisgyblion:

- yn dweud bod disgyblion yn ymddwyn yn dda a'u bod yn gallu bwrw ymlaen â'u gwaith; ac
- yn teimlo bod yr ysgol yn ystyried eu safbwyntiau.

Dywed llawer o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 4 eu bod wedi cael cyngor da wrth ddewis eu cyrsiau ac mae'r rhan fwyaf ohonynt yn credu eu bod yn cael eu paratoi'n dda ar gyfer addysg bellach neu gyflogaeth. Dywed llawer o ddisgyblion yn y chweched dosbarth eu bod wedi cael cyngor da wrth ddewis cyrsiau yn y chweched dosbarth.

Holiaduron i rieni

Cafodd Estyn 85 o ymatebion i'r holiadur i rieni. Ymatebodd rhieni yn gadarnhaol neu'n gadarnhaol iawn i'r rhan fwyaf o gwestiynau, ac mae eu safbwyntiau yn fwy cadarnhaol na rhieni disgyblion mewn ysgolion uwchradd eraill ar y cyfan.

Mae pob un o'r rhieni yn credu bod eu plentyn yn gwneud cynnydd da.

Mae bron pob un o'r rhieni:

- yn fodlon gyda'r ysgol ac yn dweud bod eu plant yn ddiogel ac yn hoffi'r ysgol;
- yn credu y cafodd eu plant gymorth i ymgynefino'n dda wrth iddynt ddechrau yn yr ysgol;
- yn credu bod gan y staff ddisgwyliadau uchel o ddisgyblion, bod yr addysgu'n dda a bod disgwyliadau staff yn uchel; ac
- yn credu bod yr ysgol yn eu helpu eu plentyn i fod yn aeddfed a chymryd cyfrifoldeb.

Mae'r rhan fwyaf o rieni yn credu:

- bod yr ysgol yn cael ei rhedeg yn dda;
- bod staff yn trin plant yn deg ac yn eu parchu;
- bod ystod dda o weithgareddau ar gael i'w plentyn;
- bod eu plant yn cael eu hannog i fod yn iach a gwneud ymarfer corff yn rheolaidd;
- bod gwaith cartref yn adeiladu ar yr hyn y mae eu plentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol; a'u bod
- yn cael y wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd eu plentyn.

Mae'r rhan fwyaf o rieni yn gyfforddus ynglŷn â mynd at yr ysgol i drafod materion am addysg a lles eu plentyn, ac maent yn gwybod beth yw'r weithdrefn ar gyfer cwyno.

Dywed llawer o rieni:

- fod disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol; a
- bod eu plentyn yn cael ei baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r cam nesaf mewn addysg, hyfforddiant neu gyflogaeth.

Atodiad 3

Y tîm arolygu

Sue Halliwell	Arolygydd Cofnodol
Rhian Wyn Griffiths	Arolygydd Tîm
Peter Harris	Arolygydd Tîm
David Ivor Hughes	Arolygydd Tîm
Robert Davies	Arolygydd Tîm
Stephen John Walters	Arolygydd Lleyg
Allison Llewellyn Yarrow	Arolygydd Cymheiriaid
Marian Jarvis	Enwebai'r Ysgol

Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

O dan Reoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003, rhaid i'r ysgol ddarparu copïau o'r adroddiad i holl rieni'r ysgol. Lle mae disgybl yn cael ei leoli yno gan awdurdod lleol, dylai'r ysgol anfon copi o'r adroddiad at bob awdurdod perthnasol.

Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALLau.

Mae'r term 'Derbyn' (CSD) yn cyfeirio at grŵp blwyddyn o ddisgyblion mewn ysgol gynradd sy'n cyrraedd 5 oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae CS Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, ac ati. Blwyddyn 13 yw'r grŵp o fyfyrwyr sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

Blwyddyn	CSD	CSB1	CSB2	B3	B4	B5	B6
Oedrannau	4-5	5-6	6-7	7-8	8-9	9-10	10-11

Cyfnod uwchradd:

Blwyddyn	B7	B8	B9	B10	B11	B12	B13
Oedrannau	11-12	12-13	13-14	14-15	15-16	16-17	17-18

Mae'r pedwar cyfnod allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

Cyfnod Sylfaen	Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2
Cyfnod allweddol 2	Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6
Cyfnod allweddol 3	Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9
Cyfnod allweddol 4	Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11

Rhestr termau

Dangosydd pwnc craidd (DPC)	Mae hyn yn ymwneud â'r perfformiad disgwylidig mewn Cymraeg neu Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth, sef pynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol.
Teuluoedd o ysgolion	Crëwyd y rhain i alluogi ysgolion i gymharu eu perfformiad â pherfformiad ysgolion tebyg ledled Cymru. Mae teuluoedd yn cynnwys ysgolion sydd â chyfrannau tebyg o ddisgyblion y mae ganddynt hawl i gael prydau ysgol am ddim, sy'n byw yn yr 20% o ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, sydd ag anghenion addysgol arbennig ac ar gynllun Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy neu ar ddatganiad ac y mae Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt a'u caffaeliad yn llai na chymwys.
Lefel 1	Mae hyn yn gyfwerth â TGAU gradd D i G.
Trothwy Lefel 1	Mae hyn yn golygu dysgu sy'n gyfwerth â phump TGAU graddau D i G.
Lefel 2	Mae hyn yn gyfwerth â TGAU gradd A* i C.
Trothwy Lefel 2 yn cynnwys Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf a mathemateg	Mae hyn yn golygu dysgu sy'n gyfwerth â phump TGAU graddau A* i C yn cynnwys Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf a mathemateg.
Trothwy Lefel 2	Mae hyn yn golygu dysgu sy'n gyfwerth â phump TGAU graddau A* i C.
Lefel 3	Mae hyn yn gyfwerth â Safon Uwch gradd A* - E.
Trothwy Lefel 3	Mae hyn yn golygu dysgu sy'n gyfwerth â dwy Safon Uwch graddau A* i E.
Sgôr pwyntiau cyfartalog ehangach	Mae hwn yn cynnwys yr holl gymwysterau a gymeradwywyd i'w defnyddio yng Nghymru yn yr oed perthnasol, er enghraifft, yn 16 neu'n 18 oed.
Sgôr pwyntiau ehangach wedi'i gapio	Mae hwn yn cynnwys yr wyth canlyniad gorau o'r holl gymwysterau a gymeradwywyd i'w defnyddio yng Nghymru yn 16 oed.
Setiau Data Craidd Cymru Gyfan	Gall ysgolion ac awdurdodau lleol gyfeirio at berfformiad o gymharu â'u teulu o ysgolion. Crëwyd y teuluoedd hyn o ysgolion i alluogi ysgolion gymharu'u perfformiad ag ysgolion

	<p>tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae teuluoedd yn cynnwys ysgolion â chyfrannau tebyg o ddisgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, disgyblion sy'n byw yn 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad, a disgyblion sy'n llai na chymwys o ran dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.</p>
--	---